Telynorion Camac

Haf 2007

Telynau Vining Cyf
8-10 Arcêd Heol Fawr, Caerdydd CF10 1BB
Ffôn:(029) 2022 1199
Ffacs:(029) 2022 6935
E-bost:telynauviningharps@boltblue.com

Symposiwm Telynau Ewrop
Cynhelir 7fed Symposiwm Telynau Ewrop eleni yng Nghaerdydd o Orffennaf 22-27. Cynhelir y Symposiwm bob tair blynedd mewn dinasoedd ar draws Ewrop, ac yn ei un mlynedd ar hugain o hanes, dyma'r tro cyntaf i'r Symposiwm ddod i Brydain.Mae'r rhaglen, gyda chopi yn amgaeëdig,yn cynnwys cyngherddau,datganiadau, dosbarthiadau meistr a darlithoedd gan rai o delynorion Celtaidd a Lladin Americanaidd,cyfoes,traddodiadol a jazz mwyaf blaenllaw Ewrop.Prif gyrchfan y Symposiwm fydd Canolfan y Mileniwm, y neuadd fawreddog ym Mae Caerdydd gyda digwyddiadau eraill yn cymryd lle ar draws y ddinas mewn lleoedd fel Neuadd y Ddinas, Neuadd Dewi Sant,Y Gyfnewidfa Lo a'r Warws.Yn ogystal â'r prif ddigwyddiadau bydd gŵyl gyffrous ar y cyrion gyda pherfformiadau jazz a cherddoriaeth werin.Bydd cyfleoedd i bobl sydd ddim yn canu r delyn i roi eu dwylo ar delyn, gyda chyfres o weithdai'n eich caniatáu i eistedd wrth delyn a gweld sut fyddwch yn hoffi'r profiad.Bydd y gweithdai'n cychwyn ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 21 gyda dwy sesiwn yn y bore yn Neuadd Dewi Sant.Os fyddwch chi'n cymryd at y delyn pam na wnewch chi archebu sesiwn brofi unigol gydag athro/athrawes telyn cyn rhentu neu brynu telyn? Gellir archebu'r gwersi hyn trwy gysylltu â ni yn y siop. Gellir cael tocynnau i'r digwyddiadau a gwybodaeth bellach ar wefan y Symposiwm ***www.arpavivacymru.org***.

Mae'r trefnwyr yn chwilio am deuluoedd i 'fabwysiadu'telynorion yn ystod wythnos yr ŵyl. Gan fod telynorion ifanc yn teithio o bob man yn Ewrop mae angen rhoi llety iddynt gyda theuluoedd lleol os yn bosibl, felly os fyddech chi'n hoffi aros am ddim yn St Petersburg ac yn hapus i edrych ar ôl telynor/es ifanc os gwelwch yn dda gadewch i bwyllgor y Symposiwm wybod.



Bydd Telynau Vining Harps yn arddangos gyda Thelynau Camac yn ystafelloedd Sony a Seligman ar lefel 2 Canolfan Mileniwm Cymru. Bydd yr arddangosfa'n agor ar bnawn Sul ac yn parhau tan amser cinio dydd Gwener. Bydd gennym arddangosfa wych o bob math o delynau gwerin,trydan,pedal a lifer gan Camac ichi eu trio a'u prynu.Dewch i chwarae nifer o'ch hoff fodel a phenderfynu yn y fan a'r lle pa delyn yr hoffech ei chael er mwyn ichi ei chymryd adref! Yn ogystal ag ymweld â'n harddangosfa beth am ddod i ganol Caerdydd ac ymweld â'n siop yn yr Arcêd Heol Fawr hanesyddol ar bwys y castell.Bydd detholiad eang o gerddoriaeth ac ategolion ar werth. Peidiwch ag anghofio codi'r daleb am ostyngiad o 10% o'r arddangosfa delynau!

Gall perchnogion telynau Camac drefnu gwasanaeth cynnal a chadw eu telynau gydag un o dechnegwyr cymwys Camac. Fel cynnig arbennig, bydd y gwasanaeth hwn AM DDIM trwy gydol y Symposiwm (ond codir am dannau a darnau eraill yn ôl yr arfer). Dylai gwasanaeth ar delyn bedal bara am awr a hanner tra bydd telyn lifer yn cymryd awr. Ffoniwch ni ar 029 2022 1199 i drefnu amser cyfleus ichi.

Cyflenwad telynau newydd
Os na fedrwch aros tan y Symposiwm i brynu'ch telyn bedal rydym newydd gael cyflenwad newydd o delynau o Ffrainc.Mae'r delyn ***Athena*** 47 tant boblogaidd gyda seinfwrdd syth ar gael ym mhob gorffeniad i'w gyflenwi ar unwaith.Mae pris y delyn maint llawn yma'n gystadleuol iawn,sef dim ond £8,695.00 yn cynnwys TAW. Gallwch hefyd ddefnyddio'n cynnig arbennig presennol sef set o orchuddion teithio trwm a stôl telyn bedal addasadwy am ddim (sy'n werth cyfanswm o £500) gyda phob telyn bedal newydd a brynir erbyn 14 Gorffennaf 2007.Mae'r cyflenwad newydd yn golygu ein bod yn gwerthu rhai o'n modelau arddangos am bris gostyngedig:
Telyn bedal ***Clio*** 44 tant,seinfwrdd estynedig wedi'i orffen mewn mahogani.Model wedi ei harddangos sydd tua 9 mis oed.Mae mewn cyflwr gwych, wedi ei chynnal a'i chadw'n ddiweddar ac yn dod gyda gwarant llawn o 5 mlynedd a set llawn o orchuddion teithio trwm gwerth £385.00.Gostyngwyd y pris o £8,695.00 i £7,995.00 yn cynnwys TAW.
Telyn bedal ***Athena*** 47 tant,seinfwrdd estynedig wedi'i orffen mewn cnau Ffrengig.Model wedi ei harddangos sydd yn 12 mis oed,mae mewn cyflwr gwych, wedi ei chynnal a'i chadw'n ddiweddar ac yn dod gyda gwarant llawn 5 mlynedd a set llawn o orchuddion teithio trwm gwerth £385.00.Gostyngwyd y pris o £10,995.00 i £9,995.00 yn cynnwys TAW.

Cambria
Mae cyflwyno'r delyn ***Cambria*** 34 tant coludd i'n hamrediad o delynau lifer wedi profi'n boblogaidd iawn.Comisiynwyd y model yma gennym ni a dim ond yn ein siop ni yng Nghaerdydd y mae hi ar gael. Ei huchder yw 131cm ac mae'n pwyso 12kg sy'n golygu ei bod yn delyn tant coludd perffaith i rywun sy'n cychwyn.Mae gennym y Cambria ar hyn o bryd wedi'u gorffen mewn mahogani, ceirios,cnau Ffrengig a masarnen naturiol.Rydym wedi ei chadw ar bris isel sef £1,495.00 i alluogi mwy o bobl i fedru fforddio telyn tant coludd.Ar hyn o bryd mae'n set cyntaf o fodelau arddangos ar gael ar werth am y pris gostyngedig £1,295.00.Mae'r rhain yn 5 mis oed ac mewn cyflwr gwych ond dim ond un neu ddwy sydd gennym ar ôl felly galwch yn y siop nawr i osgoi cael eich siomi.

Gwefannau
Mae ein dwy wefan nawr ar-lein.Mae ***www.camacharps.co.uk*** yn cynnwys yr amrediad cyfan o delynau Camac trydan,lifer a phedal gydag ystadegau,prisiau a chynigion arbennig.Yno hefyd mae manylion am ein cynllun rhentu, cerddoriaeth i'r delyn a CDau, tannau ac ategolion,newyddion telyn a digwyddiadau telyn. Mae ***www.rowlandsonline.co.uk*** yn cadw cerddoriaeth bapur ar gyfer pob offeryn, cyhoeddiadau meysydd llafur ABRSM, Trinity Guildhall a choleg Llundain ynghyd â sgorau cerddorfaol a llais,casgliadau clasurol,poblogaidd a jazz a llyfrau am gerddoriaeth a cherddorion. Mae hefyd ddetholiad eang o newyddbethau a chardiau.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi i'n stondin yn y Symposiwm.